# CYNGOR DINAS BANGOR

## RHEOLAU SEFYDLOG

Gwneir y Rheolau Sefydlog hyn gan Gyngor Dinas Bangor (cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor") ar gyfer rheoleiddio busnes y Cyngor, yn unol â pharagraff 42 o Atodlen 42 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac o ran gwneud cytundebau, yn unol â thermau adran 135 o'r Ddeddf honno. Ni ddylid dehongli fod eu heffaith yn tynnu oddi wrth unrhyw ofynion statudol nac effeithiau cyfraith achosion berthnasol.

Mae'r Rheolau Sefydlog sydd mewn teip **bras** isod yn adlewyrchu detholiad o'r niferus ofynion statudol gorfodol perthnasol, a chyfraith achosion gysylltiedig, sy'n berthnasol i Gymunedau Cymuned a Thref Cymru ac, o'r herwydd, yn gyffredinol ni ellir mo'u hatal drwy benderfyniad. Fodd bynnag, dylid deall nad ydynt yn cwmpasu'n llwyr yr holl ddarpariaethau statudol sy'n gysylltiedig â nhw.

### CYFARFODYDD Y CYNGOR, PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

1. **Mewn blwyddyn sy'n flwyddyn etholiadau cyffredin Cynghorwyr y Ddinas, dylid cynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar, neu o fewn 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y mae ei Gynghorwyr a etholwyd yn yr etholiad yn cymryd eu swydd (hynny yw, ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad). Golyga hyn fod angen i'r Cyfarfod Blynyddol gael ei gynnal rhwng 4 a 18 diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad, neu fel y rhagnodwyd fel arall yn ôl y gyfraith. Mewn unrhyw flwyddyn arall, dylai'r Cyfarfod Blynyddol gael ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod ym mis Mai fel y penderfyna'r Cyngor. Dylai gael ei gynnal am 6.30 yr hwyr neu ar unrhyw amser arall a bennir gan y Cyngor.**

2. Dylai'r Cyngor, gynnal bob blwyddyn, yn ychwanegol at y Cyfarfod Blynyddol, o leiaf chwe chyfarfod cyffredin arall ar gyfer trafod ei fusnes, a dylai'r cyfarfodydd hynny gael eu cynnal yn rheolaidd (ac eithrio mis Awst) ar nos Lun am 6.30 y.h.

3. **Gellir galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar unrhyw bryd gan y Maer a, phe bai'n gwrthod galw cyfarfod o'r fath ar ôl i gais i'r diben hwnnw, wedi ei arwyddo gan ddau Aelod o'r Cyngor, gael ei gyflwyno iddo, neu os, heb wrthod felly, nad yw'n galw cyfarfod arbennig o fewn saith diwrnod ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno iddo, gall unrhyw ddau Aelod o'r Cyngor, ar ôl i'r cais gael ei wrthod neu i'r saith diwrnod ddod i ben, alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn syth.**

4. **Dylai cyfarfod o'r Cyngor, neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor ohono, gael ei gynnal mewn lle un ai oddi mewn neu oddi allan i'w ardal, fel mae'r Cyngor, y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor yn y drefn honno yn penderfynu, ond ni ddylai gael ei gynnal mewn eiddo sydd wedi'i drwyddedu i werthu diodydd meddwol oni bai nad oes unrhyw ystafell addas arall ar gael naill ai am ddim neu am gost resymol**. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd cyfarfodydd cyngor yn rhai hybrid rhwng cyfarfod wyneb yn wyneb ac o bell, gyda'r elfen wyneb yn wyneb yn digwydd fel arfer yn Neuadd y Penrhyn. Fel arfer cynhelir cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-

bwyllgorau'r Cyngor yn Neuadd y Penrhyn neu Swyddfeydd y Cyngor drws nesaf. Gellir cynnig cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau fel rhai hybrid hefyd, yn dibynnu ar strwythur y pwyllgor a'r busnes sydd i'w drafod.

5. **O leiaf dri diwrnod clir cyn cyfarfod Cyngor neu Bwyllgor o'r Cyngor -**

   **(a)** **dylai rhybudd o amser a lleoliad y cyfarfod arfaethedig gael ei roi mewn man amlwg yn y Ddinas a, lle gelwir y cyfarfod gan Aelodau'r Cyngor, dylai'r rhybudd gael ei arwyddo gan yr Aelodau hynny a dylai nodi'r busnes y bwriedir ei drafod yn y cyfarfod; a**

   **(b)** **dylai gwŷs i fynychu'r cyfarfod, yn cadarnhau'r amser, yn manylu ar y busnes y bwriedir ei drafod yn y cyfarfod ac wedi'i arwyddo gan Swyddog Priodol y Cyngor, gael ei adael yn neu ei anfon drwy'r post i breswylfa arferol pob Aelod o'r Cyngor NEU ei yrru i'r Aelod drwy e-bost cyn belled â'i fod yn cynnwys llofnod electronig a theitl y Swyddog Priodol.** Fel arall heblaw am yr hyn y cyfeirir ato mewn mannau eraill o'r Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir gwneud penderfyniad ar unrhyw fater ac eithrio mewn perthynas â'r eitemau a bennir ar y wŷs.

   **(c)** **Ni fydd methu ag anfon gwŷs fel y cyfeirir ato yn 5(b) uchod i unrhyw Aelod o'r Cyngor effeithio ar ddilysrwydd y cyfarfod.**

6. **Rhaid i gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau gael eu cynnal yn unol â gofyniadau'r gyfraith** a'r Rheolau Sefydlog yma. Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath.

**<u>PENODI PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU</u>**

7. Gall y Cyngor, at ddiben cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau neu ei gynghori ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ef, benodi un neu fwy o Bwyllgorau yn cynnwys Aelodau'r Cyngor ac, os yw'n dymuno hynny, cynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau ohono, ond ni fydd y rheiny'n cael hawliau pleidleisio arno na chwaith yn cael eu hethol i gadeirio'r cyfarfod.

8. Gall Pwyllgor a benodwyd yn unol â Rheol Sefydlog 7 uchod at ddiben cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor neu ei gynghori ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ef, oni bod y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, benodi un neu fwy o Is-Bwyllgorau yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor ac unigolion nad ydynt yn aelodau ohono, ond ni fydd y rheiny'n cael hawliau pleidleisio arno na chwaith yn cael eu hethol i gadeirio'r cyfarfod.

9. Oni bai fod y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, dylai unrhyw Bwyllgor a benodwyd yn unol â Rheol Sefydlog 7 uchod ac unrhyw Is-bwyllgorau a benodwyd yn unol â Rheol Sefydlog 8 uchod yn y drefn honno ethol ei Gadeirydd ei hun. Os bydd pleidlais gyfartal wrth ddewis y Cadeirydd hwnnw (pan fydd nifer cyfartal o bleidleisiau yn cael eu bwrw ar gyfer pob enwebai), rhaid datrys y sefyllfa trwy fwrw coelbren.

10. Dylai Pwyllgor neu Is-Bwyllgor adrodd yn ôl yn y drefn honno i'r Cyngor neu'r Pwyllgor a'i penodwyd ar ei benderfyniadau a gymerwyd yn unol ag unrhyw bŵer swyddogaethol a ddirprwywyd iddo ac/neu awgrymiadau/sylwadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl.

11. Y Cyngor:
(a) Ni ddylai benodi unrhyw aelod o Bwyllgor i ddal swydd yn hwyrach na chyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor
(b) Ni chaiff Cadeiryddion Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau sefyll am fwy na dwy flynedd olynol cyn ymddiswyddo.
(c) Gall ar unrhyw adeg ddiddymu Pwyllgor neu newid ei aelodaeth

**CYFANSODDIAD PWYLLGORAU**

12. Y Pwyllgorau canlynol fydd Pwyllgorau Sefydlog y Cyngor a dylent gynnwys y nifer o Aelodau (heblaw'r Maer) a bennir gyferbyn â phob Pwyllgor:

Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 20 Aelod

Pwyllgor Cyllid – 8 Aelod

Pwyllgor Staffio – 6 Aelod

Pwyllgor Datgarboneiddio – 3 Aelod

Pwyllgor Gwastraff ac Ailgylchu – 7 Aelod

Pwyllgor Trosolwg Nantporth – 5 Aelod

**ETHOL MAER**

13. **Bydd y Maer, yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, yn cael ei ethol o blith ei Aelodau ac, oni bai ei fod yn ymddiswyddo neu'n cael ei anghymwyso, bydd yn parhau yn ei swydd nes bod ei olynydd yn cael yr hawl i weithredu fel y cyfryw. (h.y. yn dilyn etholiad ei olynydd i'r swydd honno yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor neu'n cael ei ethol i lenwi unrhyw swydd wag i'r Maer a allai ddigwydd yn gynt).**

14. **Rhaid i'r Maer, yn y cyfarfod blynyddol y caiff ei ethol neu ei ail-ethol (neu yn y cyfarfod lle mae'n cael ei ethol os yn llenwi lle gwag yn y swydd honno), neu os yw'r Cyngor yn y cyfarfod hwnnw yn caniatáu, cyn neu mewn cyfarfod hwyrach a bennwyd gan y Cyngor, wneud ym mhresenoldeb Aelod o'r Cyngor neu ei Swyddog Priodol, a'i gyflwyno gerbron y Cyngor, Datganiad Derbyn Swydd mewn ffurf a ragnodir gan Orchymyn a wnaed gan Llywodraeth Cymru ac, os yw'n methu â gwneud felly, bydd ei swydd fel Maer ar ôl hynny yn wag. Os yw'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, y Maer ddylai gadeirio'r cyfarfod hwnnw.**

15. **Bydd y sawl sy'n cadeirio pan etholir Maer yn peidio â bod yn gymwys i fod yn ymgeisydd i'w ail-ethol i'r swydd honno os yw'n dal i fod yn y gadair. Felly, mae'n ofynnol i unigolyn sy'n cadeirio sy'n ymgeisydd i'r etholiad hwnnw, (e.e. Maer sy'n gadael ac yn dymuno cael ei ail-ethol) adael y gadair a gadael y cyfarfod cyn i'w enw gael ei gynnig fel ymgeisydd.**

16. **Mewn achos o nifer cyfartal o bleidleisiau wrth ethol Maer, bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cael pleidlais fwrw ar ben unrhyw bleidlais arall sydd ganddo. Bydd y person hwnnw wedi pleidleisio ar y cynnig i gael ei bleidlais fwrw.**

**PENODI DIRPRWY FAER**

17. Dylai Dirprwy Faer gael ei benodi yn flynyddol gan y Cyngor o blith ei Aelodau ac, os yw penodiad o'r fath yn cael ei wneud, **dylai ddal y swydd tan yn syth ar ôl ethol Maer yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor, oni bai ei fod yn ymddiswyddo neu'n cael ei anghymwyso cyn hynny.**

**CADEIRYDD Y CYFARFOD**

18. **Os yw'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, y Maer ddylai fod yn y Gadair.**

19. **Yn absenoldeb y Maer mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Dirprwy Maer fydd yn y Gadair ar gyfer y cyfarfod hwnnw.**

20. **Yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy Faer, gall unrhyw Gynghorydd a ddewisir o blith Aelodau'r Cyngor sy'n bresennol, fod yn y Gadir. Bydd gan y Dirprwy Faer neu'r Cynghorydd sy'n cadeirio mewn cyfarfod Cyngor yr hawl i arfer holl bwerau a dyletswyddau swydd y Maer mewn perthynas â threfn y cyfarfod,** yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio ail bleidlais neu bleidlais fwrw, ond ni ddylai gymryd y gall arfer unrhyw bwerau neu gyfrifoldebau gweithredol swyddogaethol ar ran y Cyngor.

**DATGANIAD DERBYN SWYDD CYNGHORYDD Y DDINAS**

21. **Bydd unigolyn sy'n cael ei ethol neu ei ail-ethol i swydd Cynghorydd Dinas, cyn neu yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl ei ethol (neu yn achos cael ei gyfethol i'r swydd honno, yn y cyfarfod y mae'n cael ei gyfethol), neu os yw'r Cyngor yn y cyfarfod hwnnw yn caniatáu, cyn neu mewn cyfarfod diweddarach a bennwyd gan y Cyngor, ei wneud ym mhresenoldeb Aelod o'r Cyngor neu ei Swyddog Priodol, a'i gyflwyno gerbron y Cyngor, Datganiad Derbyn Swydd mewn ffurf a ragnodwyd gan Orchymyn a wnaed gan Llywodraeth Cymru (gan ymgorffori ymrwymiad gan y datganydd, y bydd, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yn glynu wrth God Ymddygiad y Cyngor am yr adeg y'i mabwysiedir) ac, os yw'n methu â gwneud felly, bydd ei swydd fel Cynghorydd Dinas yn dod yn wag.**

**AGENDÂU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU A THREFN BUSNES**

22. Ac eithrio fel y darparwyd fel arall gan y Rheolau Sefydlog hyn neu gan ddeddf, ni ddylai unrhyw eitem o fusnes na chynnig gael eu cynnwys ar agenda ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor, neu unrhyw o'i Bwyllgorau, na'i thrafod ynddynt, oni bai ei bod wedi cael ei rhoi ar yr agenda gan Glerc y Dref, neu gan Aelod o'r Cyngor, yn amodol yn yr achos olaf ar roi hysbysiad i'r Cyfarwyddwr Dinesig yn ysgrifenedig ddim hwyrach na saith diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd y Cyfarwyddwr yn gosod ar yr agenda ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r fath yr holl eitemau o fusnes neu gynigion lle rhoddwyd rhybudd fel y nodwyd.

23. Yn amodol ar unrhyw ofyniad statudol perthnasol ac ar y darpariaethau a gynhwysir mewn mannau eraill yn y Rheolau Sefydlog hyn, gan gynnwys amrywio trefn busnes,

bydd busnes unrhyw gyfarfod o'r Cyngor (ac eithrio ei Gyfarfod Blynyddol) yn cael ei drin yn y drefn ganlynol: -

(a) Ethol Aelod i gadeirio yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy Faer.
(b) Derbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb o'r cyfarfod gan unrhyw Gynghorydd ac ystyried derbyn, neu fel arall, y rheswm, os o gwbl, a roddwyd am yr absenoldeb.
(c) Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a'u natur, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad Aelodau mabwysiedig y Cyngor.
(d) Derbyn adroddiadau'r Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau a benodwyd gan y Cyngor.
(e) Ystyried eitemau busnes a roddwyd ar yr agenda gan Glerc y Dref ac (yn ddarostyngedig i rybudd gofynnol a roddwyd yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 21 uchod), eitemau o fusnes a roddwyd arno gan Aelodau'r Cyngor, yn y drefn y bydd y Cyfarwyddwr yn ystyried sydd fwyaf priodol.
(f) Ystyried a chymeradwyo'r cyfrifon i'w talu.

24. Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, yn ychwanegol, dylai'r busnes canlynol hefyd gael ei drafod yn y drefn ganlynol:-

(a) Ethol Maer.
(b) Ethol Dirprwy Faer.
(c) Penodi neu ail-benodi unrhyw Bwyllgorau Sefydlog, Is-Bwyllgorau neu Weithgorau.
(d) Penodi neu ail benodi Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol.
(e) Dirprwyo neu adnewyddu pŵer swyddogaethol i Glerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i weithredu mewn perthynas â materion brys sy'n codi rhwng cyfarfodydd y Cyngor (mewn ymgynghoriad â'r Maer a'r Dirprwy Faer neu fel arall).

**RHYBUDDION O GYNNIG**

25. Os na chaiff cynnig, y rhoddwyd rhybudd amdano felly yn y wŷs (yr agenda), ei drafod, bydd yn cael ei drin, oni chaiff ei ohirio drwy ganiatâd y Cyngor, fel cynnig a adawyd ac ni fydd yn cael cynnig eto heb rybudd o'r newydd.

26. Dylai cynigion lle rhoddwyd rhybudd priodol, y mae eu pwnc yn dod o fewn dirprwyaethau neu gylch gorchwyl unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor o'r Cyngor, ar ôl cael eu trafod, gael eu cyfeirio heb drafodaeth i'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor priodol neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor arall y gall y Cyngor benderfynu arno, i'w hystyried a

dylid adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor, heblaw fod y Cyngor, os yw'n ystyried ei bod yn gyfleus ac yn ffafriol i ddelio â'r mater, yn caniatáu i'r cynnig hwnnw gael ei drin yn y cyfarfod lle caiff ei gynnig.

27. Rhaid i bob rhybudd o gynnig fod yn berthnasol i ryw gwestiwn y mae gan y Cyngor bŵer arno neu sy'n effeithio ar y Ddinas.

## CYNIGION Y GELLIR EU TRAFOD HEB RYBUDD

28. Gellir trafod y cynigion canlynol heb rybudd: -

- (a) Penodi Cadeirydd i gadeirio mewn cyfarfod yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy Faer.
- (b) Mewn perthynas â chywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.
- (c) Newid trefn y busnes.
- (d) Symud ymlaen i'r eitem nesaf.
- (e) Cau neu ohirio'r drafodaeth ar unrhyw eitem benodol o fusnes.
- (f) Cyfeirio mater at Bwyllgor, Is-Bwyllgor neu Weithgor.
- (g) Penodi Pwyllgor neu Weithgor a/neu Aelodau i wasanaethu arno.
- (h) Derbyn a/neu fabwysiadu adroddiad.
- (i) Tynnu cynnig yn ôl.
- (j) Diwygio cynnig.
- (k) Gwahardd y cyhoedd a'r wasg mewn amgylchiadau priodol.
- (l) Gohirio'r cyfarfod yn achos ymddygiad anhrefnus.
- (m) Atal gofynion unrhyw Reol Sefydlog, ac eithrio lle byddai, wrth wneud hynny, y gofynion statudol (h.y. y rhai a argraffwyd mewn print **bras** yn y ddogfen hon) yn ymddangos fel pe na byddent yn cael eu dilyn.
- (n) Gohirio'r cyfarfod.
- (o) Gofyn cwestiwn mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes sy'n ymddangos ar agenda cyfarfod.

## CWESTIYNAU

29. Gall aelod ofyn unrhyw gwestiwn yn ymwneud â swyddogaethau neu fusnes y Cyngor i'r Maer neu'r Cyfarwyddwr Dinesig, yn amodol ar roi saith diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig amdano i'r Cyfarwyddwr Dinesig. Rhaid i bob cwestiwn o'r fath gal ei roi a'i ateb heb drafodaeth a'r unig bryd y gall y sawl y gofynnir y cwestiwn iddo wrthod ateb, yw pan ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

## RHEOLAU TRAFODAETH

30. Ni ddylid cael unrhyw drafodaeth am y cofnodion, heblaw am eu cywirdeb. Dylai cywiriadau gael eu gwneud wrth arwyddo'r cofnodion hynny. Dylid cyflwyno cywiriadau i'r Cyfarwyddwr Dinesig yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod lle bydd y cofnodion yn cael eu llofnodi.

***[Sylwer:***

*Rhaid cadw cofnodion trafodion cyngor a'i bwyllgorau. Bwriedir iddynt fod yn gofnodion ffurfiol o weithredoedd a phenderfyniadau swyddogol, nid adroddiadau, ac yn sir nid adroddiadau gair-am-air o rannau o arweithiau a wnaed gan gynghorwyr. Dylai'r cofnodion, felly, fod cyn fyrred a'r hyn a fynnir o ran eglurder a chywirdeb, a'r unig reswm dros gofnodi'r dadleuon yn y drafodaeth fydd os na ellir mynegi'r drafodaeth mewn unrhyw ffordd arall. Mae cofnodion byr, syml yn llai tebygol o fod yn ddifenwol nag adroddiadau hir.*

*[Deddf Llyowdraeth Leol 1972, Atodlen 12, parag 41 {1); ac Arnold Baker, Degfed Argraffiad, tudalen 68}*

31. Dylai'r Aelodau gyfeirio eu hareithiau at y pwnc sydd dan sylw ar y pryd yn unig a hynny drwy'r Cadeirydd. Ac eithrio cynigion a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 40 isod, dylai cyfraniadau neu areithiau gan Aelod fod yn ymwneud yn unig â'r cynnig dan sylw ac ni ddylent fod yn hwy na phum (5) munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

32. Yn yr achos lle mae dau neu fwy o Aelodau'n dymuno siarad, bydd y Cadeirydd yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.

33. Ni ddylid trafod cynnig na gwelliant i gynnig, heblaw mewn perthynas ag eitem o fusnes a gynhwyswyd ar yr agenda, oni bai ei fod wedi cael ei gynnig yn ffurfiol a'i eilio, ac, yn achos cynnig, oni bai bod y rhybudd angenrheidiol wedi'i roi yn unol â Rheol Sefydlog 24 uchod neu ei fod fel y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 29 uchod.

34. Dylai gwelliant i gynnig fod yn un o'r canlynol yn unig :-

    (a) gadael geiriau allan;
    (b) gadael geiriau allan a rhoi rhai yn eu lle neu ychwanegu rai eraill;
    (c) rhoi geiriau ychwanegol,

    ond ni ddylai hepgor neu ychwanegu geiriau gael yr effaith o gyflwyno cynnig newydd neu negyddu'r cynnig sydd gerbron y Cyngor.

35. Os gwrthodir gwelliant, gellir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol. Os caiff gwelliant ei gario, bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol a bydd yn dod yn gynnig sylweddol y gellir trafod unrhyw welliant pellach iddo.

36. Bydd gan y sawl sy'n cynnig penderfyniad hawl i ateb yn syth cyn i'r cynnig gael ei roi i bleidlais. Os bydd gwelliant yn cael ei gynnig, bydd hawl gan gynigydd y gwelliant ateb yn syth cyn bod y gwelliant yn cael ei roi i bleidlais. Ni ddylai Aelod sy'n arfer hawl i ateb gyflwyno deunydd newydd. Ar ôl arfer neu hepgor yr hawl i ateb, dylid pleidleisio heb drafodaeth bellach.

37. Gall Aelod godi pwynt o drefn neu wneud esboniad personol ond dylai esboniad personol gael ei gyfyngu i ryw ran berthnasol o araith gynt ganddo yn yr un cyfarfod a allai fod wedi cael ei cham ddeall a dylai gael yr hawl i gael ei glywed yn syth ond ni fydd dyfarniad y Maer ar bwynt o drefn neu ar dderbynioldeb esboniad personol yn agored i drafodaeth. Pryd bynnag y bydd y Maer yn codi yn ystod dadl, rhaid i holl Aelodau eraill y Cyngor dawelu.

38. Gall cynnig neu welliant gael ei dynnu'n ôl gan y cynigydd gyda chydsyniad yr eilydd a chaniatâd y Cyngor, a fydd yn cael ei fynegi heb drafodaeth, ac ni fydd yn gymwys i unrhyw Aelod siarad arno ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai bod y caniatâd hwnnw wedi'i wrthod.

39. Pan mae cynnig o dan drafodaeth, ni ddylid trafod unrhyw gynnig arall heblaw am y canlynol:-

(a) Gwella’r cynnig.
(b) Gohirio ystyried y cynnig.
(c) Gohirio’r cyfarfod.
(d) Gohirio’r drafodaeth.
(e) Symud ymlaen i’r mater nesaf.
(f) Bod y cwestiwn yn awr yn cael ei roi.
(g) Na fydd Aelod yn cael ei glywed ymhellach.
(h) Bod Aelod yn gadael y cyfarfod.
(i) Bod pwnc y ddadl yn cael ei gyfeirio yn ôl i Bwyllgor neu Is-Bwyllgor.
(j) Gwahardd y cyhoedd a’r wasg.

40. Heb ragfarnu telerau'r Rheolau Sefydlog hyn, neu hawl statudol unrhyw Aelod i ofyn am gael pleidlais ffurfiol ar unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan y Cyngor, bydd yn briodol i'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor ohono, wneud penderfyniadau, ar sail consensws neu gytundeb dealledig.

## DIDDYMU PENDERFYNIADAU

41. Ni fydd unrhyw gynnig i ddiddymu unrhyw benderfyniad a basiwyd o fewn y chwe mis blaenorol, neu unrhyw gynnig neu welliant sy’n golygu’r un peth ag un a drafodwyd o fewn y chwe mis blaenorol, yn gymwys oni bai bod y rhybudd amdano wedi cael ei roi a’i bennu yn y wŷs i’r cyfarfod. Rhaid i’r rhybudd gael, yn ychwanegol at enw’r Aelod a gyflwynodd y cynnig, enwau o leiaf traean o Aelodau’r Cyngor; a phan fydd cynnig o’r fath wedi’i waredu gan y Cyngor, ni fydd yn gymwys i unrhyw Aelod wneud cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis. Nid yw’r Rheol Sefydlog hon yn wir am gynigion sy’n cael eu cyflwyno gan y Cadeirydd neu Aelod arall o Bwyllgor neu Is-Bwyllgor o’r Cyngor wrth ddilyn argymhelliad gan y cyfryw Bwyllgor neu Is-Bwyllgor.

## CWORWM

42. **Ni cheir trafod unrhyw fusnes o’r Cyngor mewn cyfarfod o’r Cyngor oni bai bod o leiaf un rhai o dair o’r nifer cyfan o Aelodau’r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod. Cworwm o safbwynt cyfarfodydd y Cyngor hwn, felly, fydd o leiaf saith Cynghorydd. Ond, os yw mwy na thraean Aelodau’r Cyngor yn cael eu datgymhwyso ar yr un pryd, yna, hyd nes bod nifer yr Aelodau mewn swydd yn cael ei gynyddu i ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm yr Aelodau hynny, bydd cworwm y Cyngor yn cael ei bennu drwy gyfeirio at nifer yr Aelodau Cyngor sydd yn dal i fod yn gymwys yn hytrach na thrwy gyfeirio at nifer cyfan Aelodau’r Cyngor. Cyn belled â bod cworwm yn bresennol yn y cyfarfod, bydd yn briodol i benderfyniad gael ei wneud ar, dyweder, un pleidleisiwr, os nad oes neb yn pleidleisio yn erbyn. Ni fydd y ffaith y gall Cynghorwyr eraill sydd yn bresennol fod ddim yn gallu pleidleisio, oherwydd diddordeb personol mewn unrhyw fater sydd o dan ystyriaeth, yn effeithio ar y sefyllfa, gan nad yw’r gyfraith yn cyfeirio at gworwm yn cael ei gyfrifo gan gyfeirio’n unig ar yr Aelodau sydd â hawl i bleidleisio.**

43. Os nad oes cworwm yn bresennol mewn cyfarfod o’r Cyngor neu os yw nifer yr Aelodau’n disgyn o dan y cworwm, dylai’r busnes na thrafodwyd yn y cyfarfod gael ei drafod yng nghyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor neu mewn cyfarfod arbennig a alwyd yn benodol ar gyfer ei ystyried.

44. Ac eithrio lle'r awdurdodwyd gan statud neu a orchmynnwyd gan y Cyngor, ni cheir trafod busnes mewn cyfarfod Pwyllgor oni bod o leiaf chwarter cyfanswm y Pwyllgor yn bresennol. Cyn belled nad yw cworwm Pwyllgor fyth yn llai na thri Aelod.

45. Ac eithrio fel y soniwyd ynghynt neu fel arall gan y Pwyllgor a'i penodwyd, ni ddylai busnes gael ei drafod gan Is-Bwyllgor oni bod o leiaf chwarter cyfanswm yr Is-Bwyllgor yn bresennol. Cyn belled nad yw cworwm Is-Bwyllgor fyth yn llai na dau Aelod.

**<u>PLEIDLEISIO</u>**

46. **Bydd pob cwestiwn sy'n dod neu sy'n cael ei godi gerbron y Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Is-Bwyllgorau yn cael ei benderfynu gan fwyafrif o'r Aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar hynny mewn cyfarfod a alwyd yn briodol gan y Cyngor. Y dull pleidleisio fydd codi dwylo (neu, fel arall, drwy bleidlais gudd os yw'r Cyngor, y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor yn penderfynu hynny). Fodd bynnag, ar gais unrhyw Aelod o'r Cyngor a gyda chefnogaeth tri Aelod arall sy'n dangos eu cefnogaeth drwy godi ar eu traed, bydd y bleidlais ar unrhyw gwestiwn yn cael ei chofnodi er mwyn dangos a wnaeth pob Aelod oedd yn bresennol ac yn pleidleisio roi ei bleidlais dros neu yn erbyn y cwestiwn hwnnw.** Mae hawl gan Aelod gael ei enw wedi'i gofnodi yn y cofnodion fel rhywun a bleidleisiodd yn erbyn pwnc arbennig neu a ataliodd ei bleidlais ar y pwnc hwnnw.

47. Pe digwydd bod nifer cyfartal o bleidleisiau a bod yr Aelod sy'n cadeirio mewn cyfarfod o'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor yn gwrthod rhoi ail bleidlais neu bleidlais fwrw, bydd y cynnig neu'r gwelliant perthnasol yn disgyn a bydd y Cyngor, y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor, fel sy'n briodol, yn mynd ymlaen at yr eitem nesaf o fusnes; **heblaw wrth ethol Maer, pan mae'n rhaid i'r sawl sy'n cadeirio, yn ôl y gyfraith, ddefnyddio'i bleidlais fwrw.**

48. **O ran pleidleisio lle mae mwy na dau berson wedi cael eu henwebu ar gyfer un lle gwag (e.e. penodi i wasanaethu ar gyrff allanol neu benodi staff ayb.) rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael pleidlais fwyafrif bendant o'r Aelodau hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio, gydag enw'r person sy'n derbyn y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac un neu ragor o bleidleisiau newydd yn digwydd hyd nes y ceir mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person.**

**<u>YMDDYGIAD AFREOLUS</u>**

49. Ni chaiff unrhyw Aelod, mewn cyfarfod o'r Cyngor neu Bwyllgor neu Is-Bwyllgor ohono, anwybyddu'n gyson reolaeth y sawl sy'n cadeirio, rhwystro busnes yn fwriadol, neu ymddwyn yn afreolaidd, yn sarhaus, yn amhriodol neu mewn modd a fydd yn dwyn anfri ar y Cyngor.

50. Os yw Aelod, ym marn y sawl sy'n cadeirio, wedi torri gofynion Rheol Sefydlog 50 uchod, gall unrhyw Aelod gynnig nad yw'r Aelod dan sylw yn cael ei glywed mwyach. Dylai'r cynnig hwnnw gael ei gyflwyno yn syth a heb drafodaeth.

51. Os yw'r cynnig hwnnw yn cael ei dderbyn a'r Aelod dan sylw yn dal i dorri gofyniad Rheol Sefydlog rhif 50, gall y sawl sy'n cadeirio atal y cyfarfod neu gymryd camau pellach y gellir barnu'n rhesymol eu bod yn angenrheidiol neu'n fanteisiol.

**CANFASIO AELODAU AC ARGYMHELLION GAN AELODAU**

52. Bydd canfasio Aelodau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw benodiad sydd i'w wneud gan y Cyngor yn golygu fod yr ymgeisydd yn anghymwys i'r penodiad hwnnw a dylai'r Cyfarwyddwr Dinesig roi gwybod i unrhyw ymgeisydd am benodiad o'r fath, beth yw telerau'r Rheol Sefydlog hon.

53. Ni chaiff Aelod geisio dros unrhyw berson unrhyw benodiad Cyngor neu argymell unrhyw berson ar gyfer penodiad neu ddyrchafiad o'r fath. Nid yw gofynion y Rheol Sefydlog hon, fodd bynnag, yn atal Aelod rhag darparu tystlythyr ysgrifenedig ynghylch gallu, profiad neu gymeriad ymgeisydd i'w gyflwyno i'r Cyngor gyda chais am swydd. Yn ychwanegol, mae telerau'r Rheol Sefydlog hon yn berthnasol i dendrau a dyfynbrisiau fel pe bai'r unigolion hynny sy'n cyflwyno tendrau neu ddyfynbrisiau yn ymgeiswyr am swydd.

**MYNEDIAD CYHOEDDUS I GYFARFODYDD, GWYBODAETH, MATERION CYFRINACHOL AC ARCHWILIO DOGFENNAU**

54. **Bydd unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu o'i Bwyllgorau yn agored i'r cyhoedd. Tra bod unrhyw gyfarfod o'r fath yn agored i'r cyhoedd, ni fydd gan y Cyngor neu'r Pwyllgor, yn ôl y galw, rym i eithrio aelodau o'r cyhoedd ohonynt. Serch hynny, gall y Cyngor neu'r Pwyllgor, yn ôl y galw, drwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd a'r wasg (am y cyfan neu ran o'r trafodion) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod neu am reswm arbennig arall a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n codi o natur y busnes hwnnw neu o'r trafodion. Pan dderbynnir penderfyniad o'r fath, nid oes gofyn i'r cyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth y mae'r penderfyniad yn cyfeirio ati. Gall y Cyngor neu'r Pwyllgor drin yr angen i dderbyn neu ystyried argymhellion neu gyngor gan ffynonellau ar wahân i Aelodau, ei Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau, fel rheswm arbennig pam y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i'r budd cyhoeddus, heb roi sylw i bwnc neu ddiben yr argymhellion neu'r cyngor. Bydd darpariaeth y Rheol Sefydlog hon heb ragfarn i unrhyw bŵer eithrio i ostegu neu atal ymddygiad afreolus neu gamymddygiad arall mewn cyfarfod.**

55. **O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, ni cheir caniatâd i dynnu lluniau, recordio, darlledu neu drosglwyddo trafodion cyfarfod mewn unrhyw ffordd, p'un ai gan Gynghorwyr, aelodau'r wasg neu'r cyfryngau neu aelodau o'r cyhoedd, heb ganiatâd y Cyngor ymlaen llaw.**

56. **Dylai cynrychiolwyr achrededig papurau newydd sy'n bresennol at ddiben adrodd am y trafodion i'r papurau newydd hynny, gael, cyn belled ag sy'n ymarferol, cyfleusterau rhesymol ar gyfer gwneud eu hadroddiad ac, oni bai bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeilad nad yw'n eiddo i'r Cyngor, i ffonio'u hadroddiad ar eu cost eu hunain.**

57. Bydd y Cyngor hwn yn glynu hefyd at egwyddorion bod yn agored o ran mynediad cyhoeddus i'w gyfarfodydd a'i ddogfennau, fel y cyfeirir ato Neddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Bwyllgorau) 1960 cyn belled â'i bod yn bosibl ac yn ymarferol i wneud

hynny o safbwynt rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd Is-bwyllgorau a mynediad cyhoeddus i agendâu, adroddiadau, cofnodion a phapurau cefndir. **Rhaid i'r Cyngor hefyd gydymffurfio'n llwyr a glynu at unrhyw ofynion presennol neu yn y dyfodol sy'n effeithio arno a geir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Offerynnau Statudol a wnaed oddi tani.**

58. Serch yr egwyddorion o fod yn agored yn nhrafodion y Cyngor, fel ag y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 56 uchod, ni ddylai unrhyw Aelod ddatgelu i unrhyw berson nad yw'n Aelod o'r Cyngor unrhyw fusnes a nodwyd ei fod yn gyfrinachol gan y Cyngor.

59. Dylai ceisiadau gan y wasg neu gyfryngau eraill am sylwadau neu ddatganiad llafar neu ysgrifenedig gan y Cyngor, ei Gynghorwyr neu staff gael eu trin yn unol â Pholisi'r Cyngor ar y Wasg a'r Cyfryngau. Dylai sylwadau, datganiadau neu gyswllt arall â'r wasg a'r cyfryngau gael eu trin yn unol â Pholisi'r Cyngor ar y Wasg a'r Cyfryngau a Phrotocol Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor.

60. Bydd gan Aelod hawl, ond dim ond at ddiben ymgymryd â'i swyddogaethau, dyletswyddau a chyfrifoldebau fel Cynghorydd, i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor a, lle bo hynny'n ymarferol, gall wneud cais i gael copi ohoni at y diben hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r ddogfen hon yn cynnwys "gwybodaeth a eithriwyd" sy'n dod oddi mewn i baragraffau 12 – 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r hawl hwn yn dibynnu ar allu'r Aelod i ddangos ei fod "angen gwybod" y wybodaeth yma. Yn hyn o beth, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i fynd i archwilio dogfennau'r Cyngor. Os yw cymhelliant yr Aelod dros weld y dogfennau yn anuniongyrchol, amhriodol neu gudd, gellir gwrthod iddo'u gweld. Y cwestiwn allweddol yw'r "angen i wybod" a fydd yn cael ei benderfynu gan Swyddog Priodol y Cyngor. Os digwydd anghydfod, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Swyddog Monitro / Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i'w ddatrys.

61. Gall aelodau o'r cyhoedd wneud sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth mewn cyfarfod y mae ganddynt hawl i'r fynychu yn sgil materion ar yr agenda. Dylai unigolyn sy'n siarad mewn cyfarfod gyfeirio'i sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.

62. Bydd y cyfnod amser a bennir ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod, ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

63. Os yw aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i fynychu'r Cyngor neu Bwyllgor i roi gwybodaeth am bwnc arbennig, gall y Cyngor gyfeirio unrhyw benderfyniadau sydd eu hangen at gyfarfod nesaf y Cyngor.

**PENODI STAFF**

64. Gall y Cyngor benodi swyddogion a gweithwyr eraill fel y gwêl fod angen, yn cynnwys Cyfarwyddwr Dinesig, i gyflawni ei swyddogaethau'n briodol. **Bernir fod telerau penodiad neu delerau gwaith pob swyddog o'r fath neu weithiwr arall yn ymgorffori'r Cod Ymddygiad a osodwyd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Llywodraeth Leol Cymwys) (Cymru) 2001.**

65. **Rhaid i'r Cyngor benodi Swyddog Ariannol Cyfrifol** (a all hefyd fod y Cyfarwyddwr Dinesig)**, gyda dyletswyddau a chyfrifoldebau a ragnodwyd, i ymgymryd â'i swyddogaethau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996.**

66. **Rhaid i'r Cyngor benodi archwilydd mewnol hollol annibynnol i ymgymryd â'r swyddogaethau a ragnodwyd o dan Reoliad 5 o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio 1996 a'r Codau Ymarfer Archwilio a luniwyd mewn perthynas ag ef gan y Comisiwn Archwilio** a dylai ystyried unrhyw argymhellion neu sylwadau a wnaed ganddo o dro i dro.

67. **Dylai pob penodiad o berson i swydd daladwy neu gyflogaeth o dan y Cyngor gael ei wneud ar deilyngdod, yn amodol ar unrhyw eithriadau statudol perthnasol i'r gofyniad hwnnw ac, er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ffafriaeth, ni ddylai gweithwyr y Cyngor gymryd rhan mewn unrhyw benodiad, neu unrhyw benderfyniad arall sy'n gysylltiedig â disgyblaeth, dyrchafiad neu gyflog ac amodau unrhyw weithwyr eraill, neu ddarpar weithwyr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas agos â nhw y tu allan i'r gwaith.**

68. **Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cytundeb Statws Sengl y Cyd-gyngor Cenedlaethol, a elwir hefyd y Llyfr Gwyrdd, ar gyfer telerau cyflogaeth ei weithwyr. Mae'r ddogfen hon a gymeradwywyd yn genedlaethol yn manylu ar dâl ac amodau gweithwyr llywodraeth leol ac mae'n cael ei chefnogi gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC) a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC).**

**<u>CONTRACTAU</u>**

69. **Lle bwriedir mynd i gontract sy'n fwy na £5,000 ond ddim yn fwy na £50,000 mewn gwerth neu swm am gyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu am gyflawni gwaith, mae'n rhaid i Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor gael tri dyfynbris (disgrifiadau pris o'r cyflenwadau a gynigir); Pan fo'r gwerth o dan £5,000 ac uwchben £1,000, dylai'r Swyddog Ariannol neu'r Cyfarwyddwr Dinesig geisio cael tri dyfynbris.**

70. **Yn amodol ar ofynion Rheol Sefydlog rhif 72 isod, lle mae gwerth y contract arfaethedig yn fwy na £50,000 mewn gwerth neu swm, dylid cael tri dyfynbris (disgrifiadau pris o'r cyflenwadau a gynigir).**

71. **Os, ym marn y Cyngor yw'r nwyddau, y deunyddiau neu'r gwaith o natur arbenigol, fel dull gwahanol i ofynion Rheolau Sefydlog 66 a 67 uchod, gellir gwahodd tendrau gan o leiaf dri chontractwr, a ddewiswyd gan y Cyngor, sy'n arbenigo yn y math o waith ayb. sydd ei angen ar gyfer y contract dan sylw.**

72. **Dylai'r rhybudd, neu'r gwahoddiad i gyflwyno tendr, i gontract sydd dros £50,000 o ran gwerth neu swm, ddatgan natur gyffredinol y contract arfaethedig a nodi enw a chyfeiriad y person y dylid cyfeirio tendrau ato a'r dyddiad olaf y dylai'r tendrau hynny gyrraedd y person hwnnw yn amser arferol y post.**

73. **Dylai tendrau/dyfynbrisiau a dderbyniwyd gael eu hagor gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, neu berson arall yr oedd gofyn cyfeirio tendrau ato, ym mhresenoldeb y Cyngor neu'r Pwyllgor/Is-Bwyllgor/Swyddog y dirprwywyd y pŵer i ddyfarnu'r contract.**

74. **Nid oes rhwymedigaeth ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf.**

75. **Os na dderbynnir unrhyw dendrau neu os yw'r tendrau i gyd yn union yr un fath, gall y Cyngor ayb. wneud trefniadau fel y gwêl yn dda ar gyfer caffael y nwyddau neu'r deunyddiau neu gyflawni'r gwaith.**

76. **Dylai rhybudd/gwahoddiad i dendro a gyhoeddwyd yn unol â gofynion Rheolau Sefydlog rhifau 66, 67, 68 a 69 uchod gynnwys datganiad o effaith Rheol Sefydlog rhif 54 mewn perthynas â thendrau a dyfynbrisiau.**

77. **Ni chaiff unrhyw Aelod o'r Cyngor, yn enw'r Cyngor, roi gorchmynion, neu drosglwyddo cyfarwyddiadau, oni bo'r cyfryw orchmynion ayb. wedi cael eu hawdurdodi'n benodol gan y Cyngor neu yn unol â phwerau a ddirprwywyd yn briodol i Bwyllgor, Is-Bwyllgor neu Swyddog a bydd gofynion y Rheolau Sefydlog hyn a Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cael eu glynu atynt yn llym os digwydd hynny.**

78. **Pan mae gwerth contract yn debygol o fod yn uwch na £138,893 (neu drothwy arall a bennir gan Swyddfa Fasnach y Llywodraeth o dro i dro)**

**mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS Rhif 5, fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 (OS Rhif 5, fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol i'r contract ac, os yw unrhyw un o'r Rheoliadau hyn yn berthnasol, mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau caffael cenedlaethol.**

## CYFLAWNI DOGFENNAU

79. **Mae'n rhaid i bob dogfen berthnasol (e.e. y rheiny sy'n ymwneud â thrafodion tir ayb.) gael eu cyflawni o dan sêl arferol y Cyngor (neu, os nad oes sêl gan y Cyngor, eu datgan gan offeryn a lofnodwyd ac a seliwyd gan ddau Aelod o'r Cyngor,** a fydd yn cael eu penodi at y diben hwnnw, ar awdurdod ffurfiol a roddwyd ar ei gyfer gan benderfyniad o'r Cyngor).

## SWYDDOG PRIODOL

80. Lle mae statud, rheoliad neu orchymyn yn rhoddi swyddogaethau neu ddyletswyddau ar Swyddog Priodol y Cyngor, yn yr achosion canlynol y swyddog hwnnw fydd y Cyfarwyddwr Dinesig: -

i Derbyn a chofnodi'r Datganiadau Derbyn Swydd.

ii Derbyn a chofnodi hysbysiadau sy'n datgelu materion ariannol

iii Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.

iv Llofnodi hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.

v Derbyn copïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor Unedol.

vi Ardystio i gopïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor Unedol.

vii Llofnodi gwysion i fynychu cyfarfodydd o'r Cyngor.

Mewn unrhyw achos arall, y Swyddog Priodol fydd y person a enwebwyd gan y Cyngor ac, os nad oes enwebiad, y Cyfarwyddwr Dinesig.

## GWARIANT A RHEOLAETH ARIANNOL

81. **Rhaid glynu wrth delerau a gofynion Rheoliadau Ariannol Cymeradwyedig y Cyngor o ran unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â gwariant** a dylai'r Cyngor dderbyn a rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw argymhellion neu sylwadau a wneir gan ei Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaeth ariannol ei fusnes.

## COD YMDDYGIAD AELODAU A SWYDDOGION

**Paragraffau 82 – 98 wedi'u disodli gan y Cod Ymddygiad Model newydd i Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 21 Ebrill 2008.**

99. **Disgwylir i'r rhai a gyflogir gan y Cyngor ddilyn telerau'r Cod Ymddygiad perthnasol a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru. Yn gynwysedig yn hyn y mae'r hawl sydd gan y cyhoedd i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan weithwyr y Cyngor. Eu rôl yw gwasanaethu'r Cyngor drwy roi cyngor, gweithredu ei bolisïau, a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, dylent weithredu gydag unplygrwydd, gonestrwydd, tegwch a gwrthrychedd.**

100. **Mae'r gweithwyr hyn yn gwasanaethu'r Cyngor cyfan ac maent yn atebol i, ac arnynt ddyletswydd i'r Cyngor. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a osodwyd yn y Cod, gan gydnabod dyletswydd pob gweithiwr yn y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn ôl y gyfraith.**

101. **Dylai gweithwyr y Cyngor ddilyn pob polisi Cyngor a fynegwyd yn gyfreithlon ac ni ddylent adael i'w safbwyntiau personol neu wleidyddol amharu ar eu gwaith.**

102. **Mae parch y naill at y llall rhwng gweithwyr a Chynghorwyr yn hanfodol i lywodraeth leol dda, a dylai perthnasau gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol. Dylai gweithwyr ddelio â'r cyhoedd, Cynghorwyr ac unrhyw weithwyr eraill yn sensitif, effeithlon, ac yn ddiduedd.**

103. **Rhaid i weithwyr gydymffurfio â'r polisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor, yn ogystal â gofynion y gyfraith.**

104. **Dylai'r gweithwyr sicrhau eu bod yn defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd ynddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, ac ni ddylent ddefnyddio eiddo, cerbydau neu gyfleusterau eraill y Cyngor at bwrpas personol oni chawsant awdurdod i wneud hynny.**

105. **Er mai mater iddyn nhw eu hunain yw bywydau preifat y gweithwyr, ni ddylent ganiatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Ni ddylent gamddefnyddio'u safle swyddogol neu wybodaeth a gafwyd wrth wneud eu gwaith i hyrwyddo'u buddiannau preifat, neu fuddiannau pobl eraill. Yn arbennig, dylent gydymffurfio ag: -**

**(a)** **unrhyw reolau sydd gan y Cyngor ar gofrestru a datgan gan weithwyr ddiddordebau ariannol a rhai heb fod yn ariannol,**
**(b)** **unrhyw reolau sydd gan y Cyngor ar weithwyr yn datgan lletygarwch neu roddion a gynigiwyd iddynt neu a dderbyniwyd ganddynt, gan unrhyw berson neu sefydliad sy'n gwneud neu'n ceisio gwneud busnes, neu fel arall a fyddai'n elwa neu'n ceisio elwa ar eu perthynas â'r Cyngor. Ni ddylai gweithwyr dderbyn buddion gan drydydd parti oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny gan y Cyngor.**

106. **Pe digwydd i weithiwr ddod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r gweithiwr hwnnw'n credu eu bod yn anghyfreithiol, amhriodol, anfoesol neu fel arall yn anghyson â Chod y gweithwyr, dylai'r gweithwyr riportio'r**

**mater, gan weithredu yn unol â hawliau'r gweithiwr o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, a gydag unrhyw drefn riportio gyfrinachol sydd gan y Cyngor, neu unrhyw weithdrefn arall a luniwyd i'r diben hwn.**

107. **Dylai bod yn agored wrth ddatgelu gwybodaeth a phenderfyniadau fod y peth arferol mewn awdurdodau perthnasol. Fodd bynnag, gall rhai darnau o wybodaeth fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac, felly, ddim yn addas i gynulleidfa ehangach. Pan mae cyfrinachedd yn angenrheidiol i warchod preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion neu gyrff, ni ddylid rhyddhau'r wybodaeth i unrhyw un heblaw Cynghorydd y Ddinas, gweithiwr neu berson arall sydd â hawl i'w derbyn, neu sydd angen cael mynediad ati er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Ni cheir tybio bod dim yn y Cod yn mynd dros y rhwymedigaethau mewn statud neu gyfraith gyffredin i gadw rhai darnau o wybodaeth yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth arbennig.**

108. **Rhaid i weithwyr sydd â rhan mewn recriwtio a phenodi staff sicrhau fod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ffafriaeth, ni ddylai gweithwyr fod â rhan mewn unrhyw benodiad, neu unrhyw benderfyniad arall sy'n gysylltiedig â disgyblaeth, dyrchafiad neu dâl ac amodau i unrhyw weithiwr arall, neu ddarpar weithiwr, y maen nhw'n perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â nhw y tu allan i'r gwaith.**

109. **Lle bo Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliad yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 73(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n rhaid i weithiwr gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a wneir gan y Swyddog Monitro mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.**

**<u>CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG A DEFNYDDIO'R GYMRAEG</u>**

110. **Rhaid i Gynghorwyr, Swyddogion ac unrhyw weithwyr eraill, lynu at ofynion unrhyw Gynllun Iaith Gymraeg neu Gynllun diwygiedig a wnaed gan y Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.**

111. Bydd y Cyngor yn cynnal ei fusnes yn ei gyfarfodydd yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**<u>HAWLIAU DYNOL</u>**

112. **Cyn belled ag y bo modd, dylai deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth gael eu darllen a'u gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y cyfeirir atynt yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a osodwyd allan yn Neddf Hawliau Dynol 1998, ac felly, mae'n anghyfreithlon yn gyffredinol i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws ag un o hawliau'r Confensiwn. Bydd y Cyngor hwn, felly, yn rhoi sylw i egwyddorion hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl.**

**<u>CYFYNGIADAU AR WEITHGAREDDAU CYNGHORWYR</u>**

113. Oni eu bod wedi'u hawdurdodi gan benderfyniad gan y Cyngor, Pwyllgor neu Is-

Bwyllgor, ni ddylai unrhyw Aelod:

- archwilio unrhyw dir a/neu eiddo y mae gan y Cyngor hawl i'w harchwilio;
- rhoi gorchmynion neu gyfarwyddiadau i unrhyw aelod o staf y Cyngor.

## AMRYWIO, DIRYMU NEU ATAL Y RHEOLAU SEFYDLOG DROS DRO

114. Yn amodol ar ofynion statudol, gall unrhyw un neu fwy o'r Rheolau Sefydlog hyn, ac eithrio'r rheiny a argraffwyd mewn **print bras**, gael eu hatal drwy benderfyniad gan y Cyngor, mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o fusnes, cyn belled â bod y bleidlais ar hynny yn cael ei chario gan o leiaf ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y cynnig. Gall Pwyllgor neu Is-Bwyllgor yn yr un modd drwy benderfyniad atal unrhyw un neu fwy o'r Rheolau Sefydlog hyn mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o fusnes y mae ganddo bwerau swyddogaethol dirprwyedig drosti, yn amodol ar yr uchod. Dim ond yn ystod y cyfarfod lle derbynnir y penderfyniad y gall yr atal ddigwydd.

115. Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddirymu'r Rheolau Sefydlog hyn, wedi'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## RHEOLAU SEFYDLOG I'W RHOI I AELODAU A SWYDDOGION

116. Dylai copi o'r Rheolau Sefydlog hyn gael ei roi i bob Aelod o'r Cyngor gan Glerc y Dref wedi iddo dderbyn Datganiad Derbyn Swydd yr Aelod. Bydd copi yn cael ei roi hefyd gan Glerc y Dref i unrhyw Swyddog neu weithiwr arall wrth iddynt gael eu penodi.

---

Martin Hanks — Mai 2024
Cyfarwyddwr Dinesig

Diwygiwyd
- Medi 2007
- Ebrill 2008
- Hydref 2014
- Ebrill 2016
- Tachwedd 2019
- Mehefin 2021
- May 2024